

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd

Dyddiad:
Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2013

Amser:
13:30

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

Gareth Williams
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

Agenda

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

2 Tystiolaeth mewn perthynas â'r Ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses yr UE o wneud penderfyniadau

(Amser dangosol: 13:30–14:30)

- Carwyn Jones AC, y Prif Weinidog
- Dr Robert Parry, Pennaeth Materion Ewropeaidd.

3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalen 1)

CLA(4)–29–13: Papur 1 - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

CLA331 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2013

Y weithdrefn negyddol: Fe'u gwnaed ar: 13 Tachwedd 2013; Fe'u gosodwyd ar: 4 Tachwedd 2013; Yn dod i rym ar: 5 Rhagfyr 2013

CLA332 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2013

Y weithdrefn negyddol: Fe'i gwnaed ar: 18 Tachwedd 2013; Fe'i gosodwyd ar: 20 Rhagfyr 2013; Yn dod i rym ar: 13 Rhagfyr 2013

CLA333 – Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2013

Y weithdrefn negyddol: Fe'i gwnaed ar: 13 Tachwedd 2013; Fe'i gosodwyd ar: 21 Tachwedd 2013; Yn dod i rym ar: 12 Rhagfyr 2013

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-29-13: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

CLA331 – Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 i ddarparu na fydd hyrwyddo neu wrthwynebu Biliau Preifat yn y Cynulliad Cenedlaethol¹ na phenderfyniadau sy'n ymwneud â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 yn swyddogaethau gweithrediaeth awdurdod lleol.

CLA332 – Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2012

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 ("y Prif Orchymyn") yn cynnwys mesurau sy'n anelu at atal heintiau ac afiechydon niweidiol ymysg planhigion rhag dod i mewn a lledaenu. Mae'n gwneud hynny drwy ei gwneud yn ofynnol i hysbysu arolygwr awdurdodedig pan gaiff rhywogaethau penodol o goed eu mewnfario. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn drwy wneud mân-ddiwygiadau i'r materion y mae'n rhaid hysbysu yn eu cylch drwy ddarparu nad oes angen hysbysu ynghylch rhai materion penodol. At hynny, mae'r Gorchymyn yn gwahardd planhigion penodol rhag cael eu glanio yng Nghymru os ydynt wedi cael eu tyfu mewn aelod-wladwriaeth arall neu yn y Swisdir, neu os amheuir eu bod wedi cael eu tyfu yno, oni hysbysir arolygwr awdurdodedig o flaen llaw.

CLA333 – Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru)
2013

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio enwau Byrddau Iechyd Lleol Aneurin
Bevan, Cwm Taf a Hywel Dda i adlewyrchu eu statws fel Byrddau Iechyd Lleol
Prifysgol